# Adroddiad Arolygu

**Samantha Cook**

**Pontypridd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Mai 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo, ac maent yn rhyngweithio'n dda. Maent yn dangos mwynhad wrth chwarae ac yn datblygu sgiliau annibyniaeth addas.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn effeithiol. Mae'n hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol yn llwyddiannus drwy ganmol y plant a gwella eu hunan-barch. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r gweithgareddau chwarae a dysgu yn unol ag oedran y plant, eu hanghenion a'u diddordebau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel. Mae'n darparu amgylchedd glân, cyfforddus a chroesawgar i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer y camau datblygiad gwahanol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn ddigonol. Mae ganddi systemau priodol ar waith i adolygu'r gofal a ddarperir. Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferydd gofal plant cymwys addas ac mae'n sicrhau ei bod hi a'r gwarchodwr plant cynorthwyol yn ymgymryd â'r hyfforddiant diweddaraf. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai meysydd mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cadw cofnodion a gofynion staffio. Mae'r partneriaethau yn addas.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hyderus bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Maent yn cyfrannu eu syniadau ac yn cyfleu eu hanghenion i'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, dewisodd blentyn wisgo ei sliperi wrth gyrraedd y lleoliad a dewisodd y plant eraill gael eu cysurwyr gyda nhw wrth chwarae. Mae'r plant yn hyderus bod eu dewisiadau'n cael eu hystyried. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau chwarae gyda doliau penodol ac eistedd ar eu hoff gadeiriau lliwgar i fwyta eu byrbrydau a'u cinio wrth y bwrdd, ac roedd y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn parchu ac yn gweithredu ar eu dymuniadau.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gyfforddus. Maent yn gyfforddus yn eu hamgylchedd chwarae ac yn symud o gwmpas yn hyderus a didrafferth. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn agos at y rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant a'r gwarchodwr plant cynorthwyol i gael maldod a chysur. Mae'r plant yn dangos ymdeimlad o gyflawniad ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi wrth gael eu canmol am drefnu'r eirth lliwgar a gwneud patrymau â nhw. Mae'r plant yn sgwrsio â'r gwarchodwr plant yn rhwydd yn eu dewis iaith, yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd ac yn ystyriol o'i gilydd. Er enghraifft, roedd y plant yn rhoi mwythau i'w gilydd pan oeddent wedi blino. Roedd y plant yn ymateb yn dda i'r technegau tynnu sylw a ddefnyddiwyd gan y gwarchodwr plant pan oeddent am gael yr un ddol. Maent yn dangos cydberthnasau cadarnhaol â'r gofalwyr wrth fynd atynt i ddarllen stori.

Mae'r plant yn dangos mwynhad yn eu cyfleoedd chwarae. Maent yn cychwyn eu chwarae eu hunain gyda theganau ac adnoddau chwarae rôl yn y gornel gartref/ardal gaffi o dan y grisiau. Roedd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn cynnwys adrodd stori drwy ddweud "*Snap Snap!"* a chwerthin yn uchel a neidio wrth ganu '*hop little bunnies*.' Roeddent yn mwynhau reidio'r ceffyl siglo ac yn chwerthin yn uchel wrth redeg ar ôl y swigod a oedd yn cael eu chwythu gan y gwarchodwr plant, a'u popian.

Mae sgiliau annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn defnyddio adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn dewis chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Mae'r plant yn gyfarwydd â'u harferion, fel eistedd wrth y bwrdd yn ystod amseroedd bwyd a golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn datblygu sgiliau mathemateg ac iaith, sy'n cynnwys rhoi trefn ar liwiau a phatrymau, troi tudalennau mewn llyfrau a bwydo eu hunain gyda bwydydd bys a bawd a llwyau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant a'r gwarchodwr plant cynorthwyol yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau amddiffyn a diogelu plant. Er enghraifft, maent yn ymwybodol o'r camau priodol i'w cymryd pe byddai ganddynt bryder am les plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, yn annog y plant i yfed o'u boteli dŵr ac yn cynnig opsiynau bwyd iach a dŵr i'r plant yn unol â'r 'Canllawiau bwyd a maeth i leoliadau gofal plant.' Maent yn cadw ardaloedd yn lân ac yn sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo cyn paratoi bwyd i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y defnyddir cyfarpar diogelu personol (PPE) wrth newid cewynnau'r plant a bod yr ardaloedd yn cael eu diheintio yn dilyn newid pob plentyn. Mae'n goruchwylio'r plant yn dda ac yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau, damweiniau, anafiadau sy'n bodoli eisoes a chofnodion meddyginiaeth sy'n cynnwys llofnod y rhieni a'r gofalwyr. Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn meddu ar dystysgrif hylendid bwyd gyfredol ac maent wedi ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a diogelu ar-lein. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant diogelu yn bodloni gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn hyrwyddo strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus â'r plant. Maent yn annog y plant i gymryd eu tro ac yn tynnu eu sylw pan fyddant am ddefnyddio'r un tegan. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i rannu adnoddau wrth chwarae gemau gyda chylchoedd lliwgar ar goeden. Mae'n hyrwyddo dulliau hunan-barch da ymysg y plant gan eu bod yn cael eu canmol â geiriau megis 'Da iawn,' yn barhaus ac yn cael sticeri a phawen lawen am eu cyflawniadau. Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn fodelau rôl da. Maent yn annog y plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' ac i fod yn garedig tuag at ei gilydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth y plant drwy eu hannog i wisgo a bwydo eu hunain. Mae'n trefnu'r gweithgareddau chwarae a dysgu yn unol ag oedran a cham datblygiad y plant. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o syniadau cynllunio sy'n gwella amrywiaeth o sgiliau gwahanol ar gyfer datblygiad y plant, sy'n cynnwys themâu megis garddio, chwarae blêr a swigod yn ogystal â dilyn pecyn datblygu ffoneg Cymraeg. Mae'n cofnodi datblygiad iaith, mathemateg, corfforol a phersonol y plant ac yn adnabod camau datblygiadol nesaf y plant. Caiff y plant ofal gan warchodwr plant sy'n gallu diwallu eu hanghenion Cymraeg. Er enghraifft, mae'n hyrwyddo caneuon Cymraeg fel 'Bore da' a'r gân ar gyfer dyddiau'r wythnos, yn ogystal â newid o'r Gymraeg i'r Saesneg yn unol â dewis iaith y rhieni ar gyfer eu plant.

## Yr Amgylchedd **Digonol**

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'n cynnal asesiadau risg ac yn eu hadolygu'n rheolaidd ynghyd â chynnal gwiriad asesiad risg o'r amgylchedd yn ddyddiol. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion ymwelwyr a chaiff bathodynnau adnabod eu gwirio wrth gyrraedd y lleoliad. Fodd bynnag, ni chaiff y drws ffrynt ei gloi bob amser yn ystod oriau gwarchod plant. Mae giatiau a drysau diogelwch yn gwahanu'r ardaloedd nad ydynt yn hygyrch i'r plant yn llwyddiannus. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod cemegion a meddyginiaethau yn cael eu cadw i ffwrdd o gyrraedd y plant. Caiff ymarferion tân eu rhoi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl dystysgrifau cynnal a chadw ar gael i'w harolygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân, cyfforddus a chroesawgar i'r plant. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant. Mae'r ystafell chwarae wedi cael ei threfnu i ddarparu cyfleuster toiled, ardal awyr agored a chegin sydd wedi'i lleoli ar wahân i'r prif gartref. Darperir cadeiriau a byrddau bwyta lefel isel gan y gwarchodwr plant sy'n briodol ar gyfer bwyta a gweithgareddau bwrdd. Mae'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn darparu digon o le i'r plant chwarae yn gysurus. Mae’r ardaloedd newid a'r toiledau yn addas ac yn parchu preifatrwydd ac urddas y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn arddangos gwaith celf creadigol y plant ac mae labeli ffrwythau, lliwiau ac enwau'r plant i'w gweld ar y waliau.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth addas o adnoddau sy'n diwallu anghenion y plant o ran eu hoedran a'u camau datblygiad. Yn yr ardal dan do, mae crefftau, adnoddau gwneud marciau, posau, teganau adeiladu, adnoddau chwarae rôl a llyfrau Cymraeg a Saesneg. Ceir posau, jig-sos a llyfrau dwyieithog i'r plant hŷn a doliau a theganau cerddorol a meddal i'r plant iau. Yn yr ardal awyr agored, mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardal ddringo lefel isel sy'n cynnwys siglen, teganau gwthio ac ardal eistedd gydag adnoddau chwarae corfforol. Ceir adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau ac amrywiaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn ddigonol. Mae ganddi ddatganiad o ddiben manwl a gafodd ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad er mwyn adlewyrchu'r lleoliad presennol. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen diweddaru nifer o'r polisïau i adlewyrchu'r canllawiau cyfredol a'r safonau gofynnol cenedlaethol mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r fframwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Weithdrefn Gwyno a'r Polisi Plentyn Coll/Heb ei gasglu. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'r yswiriant car yn gyfredol. Mae contractau a dogfennau caniatâd ar waith ar gyfer y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Caiff y cymarebau staff i blant eu bodloni. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion bob amser yn adlewyrchu presenoldeb y plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt ar bob adeg. Felly, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer y gwarchodwr plant, y gwarchodwr plant cynorthwyol a'r rhai sy'n byw yn y lleoliad.

Mae gan y gwarchodwr plant system briodol ar waith i adolygu'r gofal a ddarperir i'r plant. Mae'n ystyried barn y rhieni a'r plant wrth werthuso ac yn nodi targedau ar gyfer gwella'r lleoliad ymhellach.

Mae'r gwarchodwr plant yn gymwys ac yn ymarferydd gofal plant profiadol. Mae gwarchodwr plant cynorthwyol yn gweithio gyda'r gwarchodwr plant ac maent yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn creu ethos gwaith ac amgylchedd da i'r plant. Cyn yr arolygiad, nid oedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd wedi'u cynnal. Mae'r holl wiriadau addasrwydd wedi'u rhoi ar waith yn ystod yr arolygiad. Nid yw sesiynau goruchwylio ac arfarniadau wedi'u cynnal ar gyfer y gwarchodwr plant cynorthwyol. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r gwarchodwr plant weithredu.

Roedd y gwarchodwr plant wedi ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn y gorffennol, ac roedd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud yn y lleoliad ers yr arolygiad diwethaf ac nid yw AGC wedi cael gwybod amdanynt. Mae hwn yn faes i'w wella.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn addas. Mae'r rhieni a'r plant yn derbyn gwasanaeth lle mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ac yn cefnogi darpariaeth Gymraeg yn y lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i grwpiau chwarae, parciau lleol ac atyniadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Rhaid i'r gwarchodwr plant hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru o'r holl newidiadau a digwyddiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar y lleoliad | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau y gwneir cofnod o bresenoldeb y plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt bob amser | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer y staff cyn iddynt gael eu lleoli i ofalu am y plant | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cydymffurfio â chanllawiau a deddfwriaeth bresennol |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau bod yr hyfforddiant diogelu yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod y dystysgrif cynnal a chadw'r system wresogi diweddaraf ar gael i'w harolygu |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod y drws i'r ardal awyr agored yn cael ei gloi bob amser |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/03/2024